OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 616 (Cy.68)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Mawrth 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mawrth 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pŵer a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adran 76(4) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau hyn.

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Swyddogion Gorfodi Sifil (Gwisgo Lifrai) (Cymru) 2008; deuant i rym ar 31 Mawrth 2008 ac maent yn gymwys i Gymru.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Deddf 2004" ("*the 2004 Act*") yw Deddf Rheoli Traffig 2004.

### Swyddogaethau penodedig

**2.**—(1) Mae pob swyddogaeth a roddir i swyddogion gorfodi gan y deddfiadau a bennir ym mharagraff (2) neu oddi tanynt yn swyddogaeth ddynodedig at ddibenion adran 76(3)(a) o Ddeddf 2004.

(2) Y deddfiadau hynny yw—

(a) adran 78(2)(a) a (b) o Ddeddf 2004;

(b) adran 79 o Ddeddf 2004; ac

(c) adran 99 o Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**3**).

(**1**) 2004 p. 18.

(**2**) Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 p.32).

(**3**) 1984 p. 27; diwygiwyd adran 99 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40), Atodlen 4, paragraff 32, Atodlen 8. Cafodd swyddogaethau o dan adran 99 eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (OS 2004/3044) gydag eithriadau mewn perthynas â'r rhan honno o draffordd yr M4 a elwir "*the New Toll Plaza area*" a "*the new Bridge*" fel y'i diffinnir yn adran 39(1) o Ddeddf Pontydd Hafren 1992 (p.3) a'r rhan honno o'r ffordd a adeiladwyd gan y Gweinidog Trafnidiaeth a ddisgrifir yn Atodlen 1 i Orchymyn

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Ieuan Wyn Jones*
Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2008

Cefnffordd Man i'r Gogledd o Almondsbury — Man i'r De o Haysgate 1947 (O.S. 1947/1562) ac y cyfeirir ati yn Gorchymyn fel "*the new road*".

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 6 o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") yn darparu ar gyfer gorfodi tramgwyddau parcio yn sifil. Mae Rhan 6 yn cynnwys pwerau sy'n darparu un fframwaith i wneud rheoliadau er mwyn i awdurdodau lleol orfodi cyfyngiadau parcio ac aros yn sifil, a lonydd bysiau a rhai tramgwyddau y mae a wnelont â thraffig sy'n symud. Bydd y rheoliadau hyn yn disodli pwerau sydd eisoes yn bodoli yn neddfwriaeth y Deyrnas Unedig.

Mae adran 76 o Ddeddf 2004 yn galluogi awdurdodau lleol i benodi swyddogion gorfodi sifil sy'n ymgymryd â gorfodi tramgwyddau parcio yn sifil. Mae'n darparu bod swyddog parcio a benodwyd o dan adran 63A o Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 yn swyddog gorfodi sifil mewn perthynas â thramgwyddau parcio ac y gellir hefyd ei benodi yn swyddog gorfodi sifil mewn perthynas â thramgwyddau traffig ffyrdd eraill sy'n ddarostyngedig i orfodi sifil yn ardal yr awdurdod lleol (y cyfeirir ato yn Neddf 2004 fel yr "*enforcement authority*" ("awdurdod gorfodi") priodol.

Mae adran 76(3) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion gorfodi wisgo lifrai o'r math a bennir gan yr awdurdod gorfodi pan fo'n arfer swyddogaethau penodedig.

Mae adran 76(4) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gwladol priodol wneud rheoliadau yn pennu'r swyddogaethau hynny na chaiff swyddog gorfodi sifil eu gwneud ond tra bo'n gwisgo lifrai.

Yn unol ag adran 76(4), mae'r Rheoliadau hyn yn pennu, o ran Cymru, yn unol ag adran 76(3) o'r Ddeddf honno, pa rai o swyddogaethau'r swyddogion gorfodi sifil a benodwyd o dan Ran 6 o Ddeddf 2004, na chaiff y swyddogion hynny eu gwneud ond tra bo'n gwisgo lifrai. Pennir y swyddogaethau drwy gyfeirio at ddarpariaethau sy'n rhoi'r swyddogaethau hynny i'r swyddogion gorfodi neu sy'n sail i'w rhoi iddynt.